

## COFNODION PYLLAU GLO

Un o'r gwefannau gorau o bell ffordd ar gyfer hanes codi glo yw *The Coal Mining History Resource Centre*. Mae'n wefan am ddim sy'n cynnwys toreth o wybodaeth ac arweiniad i ymchwilyr gloddio iddynt a dechrau darganfod. Dyma uchafbwyntiau o rywfaint o'r wybodaeth sydd ar gael ar y wefan:

### Cyn-1850

Nid oedd llawer o gofnodion personél yn bodoli fel y maent heddiw, ac felly yn aml mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth am weithwyr oni bai eu bod wedi cael damwain neu wedi marw yn sgîl anafiadau, oherwydd adroddid am hyn yn aml mewn papurau newydd. Nid oedd ffordd systematig o gofnodi marwolaethau mewn pyllau glo. Mae'r cofnodion yn hirwyntog ac mae diffyg gwybodaeth.

### 1850-1914

Daw llawer o'r manylion yn y cyfnod amser hwn o gofnodion ar wefan CMHRC o'r rhestr o farwolaethau yn Adroddiadau Arolygwyr Mwyngloddiau a daw rhai o ymchwil Ian Winstanley\*. Roedd yr adroddiadau'n nodi marwolaethau a rhai anafiadau mewn pyllau glo, siâl olew a metel yn ogystal â chwareli. Cofnodwyd yr enwau'n swyddogol o 1850-1914 ac mae dros 90,000 o gofnodion - nifer syfrdanol.

### Ar ôl 1914

Ffynhonnell y deunydd hwn yw Cofnod Damweiniau Arolygwyr Mwyngloddiau y bu'n rhaid ei drawsgrifio o ddogfennau a ysgrifennwyd â llaw, ac fel llawer o drawsgrifiadau, efallai bydd mân wallau neu anghywirdebau sy'n codi'n gyffredinol o anawsterau wrth ddarllen y gwreiddiol. Mewn sawl achos, nid yw'n dweud a yw'r ddamwain yn un angheuol ac mae CMHRC wedi penderfynu bod yn bwylllog, gan nodi ei fod yn anaf.

### Gwefannau o ddiddordeb

Trychinebau mewn pyllau glo  
<http://www.cmhrc.co.uk/site/disasters/>

Llinach  
UK, Coal Mining Accidents and Deaths Index, 1878-1935  
<https://www.ancestry.co.uk/search/collections/9735/>

Pyllau Glo Cymru  
<http://www.welshcoalmines.co.uk/>

Casgliad maes glo De Cymru  
<https://www.swansea.ac.uk/cy/ggs/llyfrgelloedd/archifau-richard-burton/gwybodaeth-am-rai-on-casgliadau/casgliad-maes-glo-de-cymru/>

---

\*Mae Ian Winstanley yn athro gwyddoniaeth sydd wedi ymddeol a chanddo ddiddordeb mawr yn hanes mwyngloddio a ddechreuodd pan y bu'n ymchwilio i gysylltiadau ei deulu ei hun â'r pyllau glo. Ef sydd wedi coladu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar wefan CMHRC.

Llinell amser Maes Glo De Cymru  
<http://www.agor.org.uk/cwm/timeline.asp>

Y Diwydiant Glo - Amgueddfa Genedlaethol Cymru  
[https://amgueddfa.cymru/curadurol/diwydiant/diwydiant-glo/?\\_ga=2.104726467.251260132.1598523681-933178919.1550660460](https://amgueddfa.cymru/curadurol/diwydiant/diwydiant-glo/?_ga=2.104726467.251260132.1598523681-933178919.1550660460)

Maes Glo De Cymru  
<https://www.nmrs.org.uk/mines-map/coal-mining-in-the-british-isles/swales/>

Gan fod llawer o lowyr yn symud o gwmpas y wlad i chwilio am waith pan fyddai siafftau newydd yn cael eu cloddio, gallwch weithiau ddod o hyd i hynafiaid yn bell oddi cartref. Efallai bydd y gwefannau eraill hyn o ddiddordeb i'r rheini ohonoch sy'n chwilio ar draws y DU:

National Coal Mining Museum  
<http://www.ncm.org.uk>

The North of England Mining Institute of Mining and Mechanical Engineers  
<http://www.mininginstitute.org.uk>

The Durham Mining Museum  
<http://www.dmm.org.uk>

Achub o Byllau Glo  
<http://www.healeyhero.co.uk/>

The Mining History Network  
<https://projects.exeter.ac.uk/mhn/>

Gwefan Mwyngloddio'r Alban  
<http://www.scottishmining.co.uk/>